**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Dyddiad: 3 Mai 2022

Pwnc: Ymgynghoriad: ymchwiliad i asedau cymunedol

Annwyl gyfaill

**Ymchwiliad i asedau cymunedol**

Mae Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd yn cynnal ymchwiliad i asedau cymunedol, gan ganolbwyntio'n benodol ar rwystrau a chyfleoedd i gymunedau gaffael asedau adeiledig at ddefnydd cymunedol. Bydd y Pwyllgor yn archwilio sut mae'r fframwaith statudol a pholisi yn annog ac yn cefnogi datblygiad asedau cymunedol er budd cymunedau. Mae'r materion i'w hystyried yn cynnwys y canlynol:

1. A yw'r fframwaith statudol a pholisi presennol yn grymuso cymunedau yng Nghymru i ddatblygu asedau cymunedol;
2. I ba raddau y mae cynllun Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn hyrwyddo ac yn cefnogi datblygiad effeithiol asedau cymunedol;
3. Archwilio'r rhwystrau a'r heriau y mae cymunedau yn eu hwynebu wrth gymryd perchnogaeth o asedau sy'n eiddo cyhoeddus neu breifat, gan gynnwys cyllid a gwasanaethau cymorth;
4. Darganfod pa wersi y gellir eu dysgu o du hwnt i ffiniau Cymru.

**Gwahoddiad i gyfrannu i'r ymchwiliad**

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'w gynorthwyo yn ei drafodaethau ar yr ymchwiliad.

**Cyflwyno tystiolaeth**

Os hoffech ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor, e-bostiwch gopi electronig o'ch tystiolaeth i SeneddTai@senedd.cymru neu anfonwch drwy'r post at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Senedd Cymru, Caerdydd, CF99 1SN.

Mae gan y Senedd ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg. Yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd, mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau y bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrafodion y Senedd gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Pan na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno'n ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith y cawsant eu cyflwyno ynddi, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaeth statudol.

Gweler y canllawiau i'r rhai sy'n darparu tystiolaeth i bwyllgorau a'r Hysbysiad Preifatrwydd sy'n ymwneud â chyfrannu at waith pwyllgorau'r Senedd.

**Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth**

Fel rheol byddwn yn cyhoeddi gohebiaeth neu dystiolaeth ysgrifenedig ar ein gwefan. Os ydych wedi ymateb yn bersonol, bydd eich enw'n cael ei gyhoeddi ynghyd â'ch cyfraniad, oni bai eich bod wedi gofyn i'ch cyfraniad fod yn ddienw. Os ydych wedi ymateb yn eich rôl broffesiynol, bydd y fersiwn o'ch ymateb a gyhoeddir yn cynnwys eich enw, teitl eich swydd/rôl os yw'n berthnasol, ac enw eich sefydliad.

Cyn derbyn cyfraniadau gan unigolion o dan 13 oed, mae arnom angen awdurdodiad gan riant neu warcheidwad y person ifanc. Gellir darparu hyn ar ffurf e-bost gan riant neu warcheidwad y person ifanc. Ni fyddwn yn cyhoeddi enwau unigolion o dan 18 oed ochr yn ochr â'u cyfraniadau.

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn dydd Gwener 24 Mehefin 2022. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Catherine Hunt, Ail Glerc ar 0300 200 6347.

Yn gywir

John

John Griffiths AS

Cadeirydd